# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **18fed Chwefror 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Aled Davies** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 682815 Est 34815** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cais am arian o'r gronfa trawsffurfio i ariannu Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia yn y Gymuned (sy'n cynnwys Dementia Go) am ddwy flynedd.** |

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cafodd Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia yn y Gymuned (sy'n cynnwys Dementia Go), ei gefnogi gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar y 4ydd o Fehefin 2019 a neilltuwyd £97,660 o'r Gronfa Trawsffurfio i'w weithredu. Yn dilyn y llwyddiant dechreuol, gwneir cais yn awr i ymestyn y cyfnod hwn am ddwy flynedd, hyd at Mawrth 2022, er mwyn defnyddio'r amser i sefydlu dull ffurfiol o fesur effaith y rhaglen ac i dystiolaethu'r cyswllt rhwng mynychu dosbarthiadau Dementia Go a darpariaeth gofal cymdeithasol a iechyd dros gyfnod o amser. Gwneir cais am £200,000 i ariannu 2 swydd llawn amser (ym Mhwllheli a Porthmadog) a dwy swydd 7 awr yr wythnos wedi eu lleoli yn Nhywyn a Chaernarfon. Mae costau offer, teithio a hyfforddiant yn gynwysiedig yn y swm hwn.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae'r Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia yn y Gymuned wedi ei sefydlu ers 2016 i gefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia, a'u teuluoedd, drwy wahanol weithgareddau mewn 12 canolfan gymunedol ar draws Gwynedd. Gwnaethpwyd gwaith ymgysylltu manwl gyda mynychychwyr y dosbarthiadau Dementia Go a'r gweithgareddau eraill, i fesur gwerth y Cynllun o'u safbwynt hwy, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn y maes iechyd a gofal sydd wedi gweld effaith y rhaglen ar unigolion.

Dyma gasgliad annibynnol yr ymchwilwyr o'r Tîm Ymchwil a Dadansoddeg y Cyngor:

"*Mae yna nifer o ddarnau o wybodaeth ansoddol sy'n tystiolaethu fod y rhaglen DementiaGo yn cynnig budd i'r mynychwyr unigol, a hynny trwy eu galluogi i fyw*

*bywyd gwell a bywyd mwy annibynnol."*

Dywedir ymhellach:

*"O'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni mae'n ymddangos bod y rhaglen DementiaGo yn enghraifft dda o brosiect sydd wedi'i gynllunio'n lleol o safbwynt yr hyn mae defnyddwyr lleol ei angen, ac wedi gallu addasu a datblygu dros amser heb fod llawer o fiwrocratiaeth neu rwystrau "cyfundrefnau" ynghlwm efo hynny.*

*Yn ogystal, mae'n ymddangos y bu'r prosiect yn llwyddiannus o safbwynt torri ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cyd-gynhyrchu cynllun o safbwynt y defnyddiwr."*

Argymhelliad terfynol yr adroddiad yw bod angen cyfnod hirach o amser i dystiolaethu'r cyswllt rhwng mynychu'r rhaglen DementiaGo a darpariaeth gofal cymdeithasol a iechyd a bod angen rhoi sylw i hyn wrth i'r rhaglen ddatblygu. Golyga hyn dracio pecynnau gofal gaiff defnyddwyr ar ôl iddynt gychwyn ar y rhaglen, gan eu cymharu gydag achosion "tebyg" sydd heb fynychu DementiaGo.

Gofynnir  am gyllid am  gyfnod estynedig o ddwy flynedd o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn gallu cynnal yr ymchwil hollbwysig yma. Trwy hynny, byddwn yn gallu tynnu sylw at gryfderau'r rhaglen o ran cryfhau llesiant yr unigolyn ac yn deillio o hynny, gobeithir gallu tystiolaethu bod y Cynllun yn gwneud arbedion ariannol i'r Cyngor yn y tymor hir.

## 3 CYFLWYNIAD

Mae'r gyllideb y gofynnir amdano hyd at diwedd Mawrth 2022 yn fodd o gyflawni y 5 maes rhaglen ganlynol:ganlynol:

- Byw'n dda gyda Dementia : Dosbarthiadau gweithgaredd corfforol cymunedol.12 dosbarth ymhob rhan o Wynedd gyda pwyslais ar lesiant corfforol a chymdeithasol.

- Prosiect "Munud i symud"(Moving moments) Cartrefi Gofal Cyngor Gwynedd. Cynnal cefnogaeth i gartrefi preswyl Cyngor Gwynedd i gefnogi symudedd y preswylwyr drwy annog ymarferion corfforol ysgafn a chreu awyrgylch o hwyl yr un pryd.

- Hyfforddi grwpiau a chymunedau drwy'r rhaglen "ffrindiau Dementia" sy'n fodd o arfogi pobol Gwynedd efo gwybodaeth a dealltwriaeth gwell o'r cyflwr dementia. Mae'n torri'r stigma o gwmpas dementia.

- Cefnogaeth a grymuso pobol, a'u teuluoedd, sy'n byw gyda dementia. Crewyd cangen o'r grwp DEEP: Dementia Empowerment and Engagement Project i roi llais i bobol sy'n byw gyda dementia.

- Ansawdd bywyd a chysylltu pobol. Cynnigir digwyddiadau cymdeithasol megis Cyngrair Boccia lle mae grwpiau o bobol bregus, yn cynnwys

dosbarthiadau Dementia Go, yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn awyrgylch o hwyl a chefnogaeth.

4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r Tim Dadansoddeg ag Ymchwil wedi amacangyfrif y nifer o bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngwynedd ar hyn o bryd sef 2,049 sef 1.67% o'r boblogaeth. Maent wedi tynnu sylw at un ystadegyn trawiadol sef bod amcangyfrif bod etholaeth Dwyfor-Meirionnydd â chyfradd neilltuol o uchel o bobol sy'n byw gyda dementia sef 2.06% o'r boblogaeth. Mae hyn ar sail proffil oedran hŷn yr ardal yma, a dyma'r gyfradd 4ydd uchaf ymhlith y 650 etholaeth ym Mhrydain.

Maent yn tynnu sylw at y ffaith bod astudiaethau cenedlaethol yn amcangyfrif cost y cyflwr fesul achos gyda costau yn amrywio gyda difrifoldeb y cyflwr, o tua £26,200 y flwyddyn ar gyfer achosion llai difrifol, i £39,300 ar gyfer achosion cymedrol, i £41,200 yn yr achosion mwyaf difrifol. Mae'r costau yma yn cynnwys cost gofal iechyd, gofal cymdeithasol (p'run ai yn disgyn ar awdurdodau lleol neu gyfraniad yr unigolyn / teulu at y costau), a chost cyfatebol ffrindiau a theuluoedd yn darparu gofal di-dâl. Maent wedi amcangyfrif cyfanswm cost blynyddol dementia yng Ngwynedd, a faint o'r gost yma sy'n debygol o fod yn disgyn ar y Cyngor, a gwelir fod y swm yn £11 miliwn yn flynyddol.

Dyma gasgliad y TîmYmchwil a Dadansoddeg am waith y Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia:

"*<u>Os oes</u> yna arbediad yn deillio, yna dim ond nifer fach o achosion 'llwyddiannus' fyddai ei angen er mwyn i'r arbediad hwnnw fod yn un eithaf sylweddol:*

*Ar sail cost gweithredu'r rhaglen DementiaGo (tua £100k yn 2019/20), a chost safonol gofal nyrsio dementia (£662.53 yr wythnos yn 2019/20) yna <u>pe bai</u> y rhaglen yn llwyddo i oedi trosglwyddiad rhai unigolion i ofal am, dyweder, dim ond 6 wythnos yr un – yna fe fyddai'r rhaglen yn talu am ei hunan ar sail tua 25 o achosion o'r fath ar draws Gwynedd bob blwyddyn."*

Mae'r Cynllun DementiaGo yn unigryw i Wynedd ac mae wedi cael cydnabyddiaeth ar lefel Brydeinig yng Ngwobrau'r Gymdeithas Alzheimers yn Llundain ar y 14eg o Dachwedd 2019 yn y categori "Trailblazer of the Year". Mae'r gwaith wedi'i enwebu ar gyfer Gwobrau Cenedlaethol dan nawdd Gofal Cymdeithasol Cymru a mae tim o feirniaid wedi ymweld a dosbarth Dementia Go ar yr 28ain o Ionawr 2020. Rydym yn gadarn yn y farn bod gwaith y Cynllun hwn yn cefnogi llesiant unigolion a'u teuluoedd: mae'r mynychwyr eu hunain yn tystiolaethu hynny'n gyson.

Dyma rai o'u sylwadau:

'*Rwy'n teimlo'n fwy heini ac yn gryfach ac rwy'n gwneud fy ngorau glas i fyw'n dda gyda fy Mharkinsons a Dementia - ac mae hyn oll i wneud gyda gallu dod i'r dosbarthiadau DementiaGo'*

*‘Mae’r grŵp wedi dod â mi allan o’m cragen, nid wy’n teimlo’n isel mwyach.... bod ynghanol pobl a chanddynt broblemau tebyg i mi ac sy’n deall yr hyn yr wyf i’n byw drwyddo’*

*‘Rwyf wirioneddol wrth fy modd yn mynychu’r dosbarthiadau. Maent yn gwneud i mi deimlo’n hapus ac yn rhoi mwy o egni i mi’.*

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Byddwn yn mynd ymlaen i sefydlu y gwaith ymchwil ar seiliau cadarn o fod yn llwyddiannus yn y cais hwn. Bydd y Tim Dadansoddeg ag Ymchwil yn amlinellu sut a pha achosion newydd sydd yn mynd i gael eu tracio yn erbyn unigolion eraill fydd ddim yn mynychu sesiynau Dementia Go. Bydd staff y Tim DementiaGo yn derbyn cyfarwyddiadau ar sut i gyflwyno’r gwaith ymchwil i’r defnyddwyr addas gan fod yn agored gyda hwy o’r cychwyn am fwriad y gwaith ymchwil a derbyn eu caniatâd hwy a’u teuluoedd. Byddwn yn cwrdd yn rheolaidd gyda’r Tim Ymchwil i strwythuro’r gwaith a’i amserlennu dros y ddwy flynedd gyda’r bwriad o gyhoeddi’r casgliadau mewn adroddiad ymhen dwy flynedd.

Yn y cyfamser, bydd y Tim yn bwrw ymlaen i ddatblygu y gwasanaethau ar sail adborth cyson gan y mynychwyr. Byddwn yn parhau i roi croeso i’r nifer cynyddol o bobl allanol sydd yn cymeryd diddordeb yn y rhaglen waith a sydd eisiau dysgu o’i llwyddiannau.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Prif Swyddog Cyllid :

*Nodaf fod cais yma am £200,000 o adnoddau un tro o’r Gronfa Trawsffurfio’r Cyngor. Bydd nifer o geisiadau haeddiannol yn deillio o Gynllun y Cyngor yn cystadlu am adnoddau prin o’r Gronfa Trawsffurfio. Mater i aelodau’r Cabinet fydd blaenoriaethu’r ceisiadau sy’n gwneud gwahaniaeth wrth ddyrannu adnoddau o’r Gronfa. Cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i ariannu’r cynlluniau sydd wedi’u cyflwyno i’r Cabinet, a bod arian pellach ar gael o’r Gronfa ar gyfer rhai prosiectau fydd yn cyrraedd cyfarfodydd dilynol o’r Cabinet am gymeradwyaeth.*

Swyddog Monitro:

*Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.*